

## **Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

**Dydd Llun, 27 Mehefin 2011**

**11.00 – 16.00**

**Ystafell MedRus 1, Neuadd Penbryn, Prifysgol Aberystwyth**

### **Yn bresennol:**

#### **Cyfarwyddwyr:**

Yr Athro R.Merfyn Jones, Cadeirydd  
Wyn Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch  
Helen Marshall, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch  
Yr Athro Hywel Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch  
Geraint James, Cyfarwyddwr Annibynnol  
Gareth Pierce, Cyfarwyddwr Annibynnol  
Linda Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol  
Dr Hefin Jones, Cyfarwyddwr yn cynrychioli Staff Academaidd  
Katie Dalton, Cyfarwyddwr yn cynrychioli Myfyrwyr

#### **Swyddogion:**

Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (IM)  
Dr Gwennan Schiavone, Ysgrifennydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (GS)

#### **Sylwedyddion:**

Dr Alison Allan, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)

#### **Ymddiheuriadau:**

Yr Athro Medwin Hughes, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch  
Yr Athro Aled Jones, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch  
Jacqui Hare, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch  
Dr Ian Rees, Cyfarwyddwr Annibynnol  
Lisa Newberry, Addysg Uwch Cymru, Sylwedydd

#### **Hefyd yn bresennol:**

Mererid McDaid, Cyfreithwyr Morgan Cole (yn bresennol ar gyfer Eitem 2 ar yr agenda yn unig)

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<b>1 Sylwadau Agoriadol</b>	<p>1.1. Estynnwyd croeso i bawb gan y Cadeirydd, a nodwyd gair o ddiolch i Brifysgol Aberystwyth am letya'r cyfarfod.</p> <p>1.2. Estynnwyd croeso arbennig i Mererid McDaid, Cyfreithwyr Morgan Cole, a oedd yn bresennol i roi cyflwyniad ar gyfrifoldebau a dyletswyddau'r cyfarwyddwyr.</p>		
<b>2 Cyflwyniad gan Mererid McDaid, Cyfreithwyr Morgan Cole, ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau Cyfarwyddwyr</b>	<p>2.1. Cafwyd cyflwyniad llawn gan Mererid McDaid (MM), Cyfreithwyr Morgan Cole, ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau Cyfarwyddwyr y Coleg.</p> <p>2.2. Nodwyd yn eglur gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr o dan Ddeddf Cwmnïau 2006, a'u dyletswyddau fel Ymddiriedolwyr o dan y Gyfraith Elusen, a gofynion y Comisiwn Elusennau.</p> <p>2.3. Cafwyd amlinelliad o swyddogaeth a chyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Cyfarwyddwyr eu hunain, yn unol â'r hyn a nodwyd yn Erthyglau a Memorandwm Cymdeithasu'r Coleg, a darparwyd cyngor ac arweiniad ar faterion yn ymwneud a gweithredu'n effeithiol.</p> <p>2.4. Cafwyd trafodaeth ymysg y Cyfarwyddwyr ar gynnwys y cyflwyniad, a gwyntyllwyd rhai elfennau o gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr.</p> <p>2.5. Ar ddiwedd y cyflwyniad, nodwyd gair o ddiolch i MM am ei chyfraniad, a nodwyd fod y sesiwn yn dra defnyddiol i'r Cyfarwyddwyr wrth iddynt ddechrau ar eu gwaith.</p>		
<b>3 Cynllun Strategol y Coleg 2011/12 hyd 2013/14</b>	<p>3.1. Wrth gyflwyno'r eitem, dosbarthwyd copiau o'r llythyr grant drafft a gyflwynwyd i'r Coleg gan HEFCW wythnos cyn y cyfarfod, er gwybodaeth, a nodwyd y byddai'r amodau /</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
(BC/11/02/03)	<p>targedau a nodir yn y llythyr yn cael eu hymgorffori i'r drafft terfynol o'r Cynllun Strategol. Nodwyd y byddai'r Coleg hefyd yn cynnal cyfarfod gyda swyddogion HEFCW er mwyn sicrhau fod gweithgareddau eraill sy'n greiddiol i waith y Coleg yn cael eu cynnwys yn y llythyr.</p> <p>3.2. Cafwyd cyflwyniad gan IM yn amlinellu prif elfennau'r drafft cychwynol o Gynllun Strategol y Coleg ar gyfer y cyfnod 2011/12 hyd 2013/14, a nodwyd yr amserlen ar gyfer cynnal ymgynghoriad ar y Cynllun.</p> <p>3.2.1. Cyflwynwyd y themâu allweddol yn unigol, a'r prif gamau gweithredu sy'n cael eu cynnig ar gyfer y Coleg er mwyn ymateb i'r themâu a'r heriau sydd ynghlwm â'r targedau hyn. Nodwyd y byddai swyddogion y Coleg yn paratoi Cynllun Gweithredu Blynyddol ar gyfer 2011/12 yn seiliedig ar ddrafft terfynol y Cynllun er mwyn amlinellu'n llawn sut y bydd y camau'n cael eu gweithredu.</p> <p>3.2.2. Nodwyd ei bod hefyd yn fwriad i lunio rhagarweiniad i'r Cynllun, er mwyn nodi prif amcanion y Coleg.</p> <p>3.3. Cafwyd trafodaeth ymysg y Cyfarwyddwyr ar gynnwys y Cynllun, a chyflwynwyd sylwadau ar y ddogfen fesul thema. Yn benodol, nodwyd y canlynol:</p> <p>3.3.1. <b>Thema Allweddol 1</b></p> <p>(i) Nodwyd, a chroesawyd y pwyslais ar gynllunio academaidd, a'r nod o greu cynllun academaidd cenedlaethol uchelgeisiol. Croesawyd yn ogystal y datganiad cadarn y bydd pob buddsoddiad ariannol a wneir gan y Coleg yn ymateb i'r amcanion a'r</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>anghenion a fyddant wedi eu nodi yn y cynllun academaidd.</p> <p><b>3.3.2. Thema Allweddol 2</b></p> <p>(i) Nodwyd y targedau parthed cynyddu niferoedd y myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, a chroesawyd y pwyslais ar ehangu'r cyfleoedd astudio, a sicrhau fod y profiadau astudio cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i fyfyrwyr o'r safon uchaf ac yn gyfwerth ag unrhyw brofiadau astudio eraill.</p> <p>(ii) Nodwyd yr her sydd ynghlwm a'r nod o gynyddu'r cofrestriadau cyfrwng Cymraeg, a nodwyd y rôl allweddol sydd gan y sefydliadau, a'r 'canghennau' o'r Coleg o fewn y sefydliadau i'w chwarae tuag at gyflawni'r nod, mewn cydweithrediad a'r Coleg.</p> <p><b>3.3.3. Thema Allweddol 3</b></p> <p>(i) Croesawyd yr ymrwymiad i ymateb i'r agenda sgiliau ac anghenion y gweithle. Awgrymwyd y dylid, yn y cyd-destun hwn, ac yng nghorff y Cynllun ei hun, gryfhau'r cyfeiriadau at fyfyrwyr rhan amser. Nodwyd y dylid hefyd cofnodi ymrwymiad y Coleg i ehangu mynediad a chynyddu cyfranogiad.</p> <p><b>3.3.4. Thema Allweddol 5</b></p> <p>(i) Croesawyd yr ymrwymiad i hyrwyddo a chefnogi ysgolheictod a dysg drwy gyfrwng y Gymraeg, a nodwyd pwysigrwydd denu addysgwyr ac ymchwilwyr o'r radd flaenaf i gyfrannu at raglen y Coleg.</p> <p>(ii) Nodwyd yr angen i gyfeirio at sefydlu Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi.</p> <p><b>3.3.5.</b> Yn ychwanegol at y sylwadau uchod, cytunwyd ar fân</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>newidiadau i eiriad adrannau o'r Cynllun.</p> <p>3.4. Nodwyd y byddai swyddogion y Coleg yn llunio drafft terfynol o'r ddogfen, gan ymgorffori sylwadau'r Cyfarwyddwyr yn dilyn y cyfarfod. Cytunwyd i ddsbarthu'r drafft diwygiedig i'r Cyfarwyddwyr er mwyn derbyn unrhyw sylwadau pellach cyn cyflwyno'r ddogfen i ymgynghoriad llawn ym mis Medi.</p>	<p>Swyddogion y Coleg i lunio drafft terfynol o'r ddogfen, a'i ddsbarthu i'r Cyfarwyddwyr cyn cyflwyno'r ddogfen i ymgynghoriad llawn ym Medi 2011.</p>	<p>Gorffennaf-Medi 2011.</p>
<p><b>4 Staffio canolog y Coleg</b> (BC/11/02/04)</p>	<p>4.1. Cafwyd trafodaeth ar sefyllfa staffio bresennol y Coleg a'r strwythurau rheoli dydd-i-ddydd. Nodwyd yn fyr gyfrifoldebau'r aelodau unigol o staff, ac amlinellwyd y cyfrifoldebau a'r dyletswyddau newydd sydd wedi deillio o sefydlu'r Coleg, a'r llwyth gwaith ychwanegol y mae staff presennol y Coleg wedi ymgymryd ag ef.4.2. Yn sgil y drafodaeth, penderfynodd y Cyfarwyddwyr y dylid penodi 2.5 aelod ychwanegol o staff ar raddfa 5, i'w lleoli yng Nghaerfyrddin. Wrth gymeradwyo'r argymhelliad, nodwyd gwerthfawrogiad y Cyfarwyddwyr o'r gwaith y mae staff y Coleg eisoes wedi ei gyflawni gan longyfarch y swyddogion ar eu cyflawniadau hyd yma.</p>	<p>Y Coleg i hysbysebu swyddi cyn gynted â phosibl.</p>	<p>Gorffennaf 2011.</p>
<p><b>5 Ymddiheuriadau</b></p>	<p>5.1. Nodwyd y derbyniwyd ymddiheuriadau gan Yr Athro Aled Gruffydd Jones, Yr Athro Medwin Hughes a Jacqui Hare (Cyfarwyddwyr Sector Addysg Uwch); Dr Ian Rees (Cyfarwyddwr Annibynnol); a Lisa Newberry, Addysg Uwch Cymru (Sylwedydd).</p>		
<p><b>6 Derbyn cofnodion y cyfarfod a</b></p>	<p>6.1. Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<b>gynhaliwyd ar 30 Mawrth 2011</b>			
<b>7 Materion yn Codi</b>	<p>7.1. Mewn perthynas â'r pwynt gweithredu yn codi o 12.4., nodwyd nad oedd modd cynnwys cyflwyniad ar brosesau monitro grantiau a ddyfernir gan y Coleg fel eitem yn y cyfarfod hwn, gan fod yr agenda yn un llawn iawn. Awgrymwyd y gellid cynnal gweithdy i'r Cyfarwyddwyr ar brosesau monitro grantiau'r Coleg yn y dyfodol.</p> <p>7.2. Nodwyd ei bod yn fwriad i ychwanegu eitem sefydlog arall i agenda cyfarfodydd y Bwrdd er mwyn nodi gohebiaeth a ddaw i law. Nodwyd fod y Cadeirydd wedi derbyn gohebiaeth gan Brifysgol Casnewydd ers y cyfarfod diwethaf ar fater eu hymwneud â gwaith y Coleg, a'r rôl a oedd ganddynt i'w chwarae yng nghyd-destun y gwaith hwnnw. Nodwyd fod Prif Weithredwr y Coleg wedi cyfarfod Dirprwy Is-Ganghellor Prifysgol Casnewydd, yn dilyn trafodaeth â'r Cadeirydd, er mwyn trafod y materion a nodwyd yn yr ohebiaeth.</p>		
<b>8 Materion Staffio (BC/11/01/08)</b>	<p>8.1. Nodwyd fod yr agenda ar gyfer y cyfarfod wedi ei llunio ar adeg pan oedd ansicrwydd yn parhau ynghylch trefniadau pensiwn, a gallu'r staff i ymuno â chynllun pensiwn USS. Nodwyd fod y sefyllfa bellach wedi ei datrys, yn sgil cytundeb pedwar sefydliad addysg uwch i ddarparu gwarant ar y cyd i'r Coleg, a thrwy hynny fodloni gofynion USS. Nodwyd gair ffurfiol o ddiolch i Lisa Newberry, Addysg Uwch Cymru, am ei holl waith yn y cyd-destun hwn.</p> <p>8.2. Nodwyd y bydd y broses o drosglwyddo staff i gyflogaeth y Coleg yn mynd rhagddo yn syth, gyda'r nod o gwblhau'r trosglwyddiad erbyn diwedd Gorffennaf.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<p><b>9 Llywodraethu</b> (BC/11/02/09)</p>	<p>9.1. <u>Cofrestriad y Coleg gyda'r Comisiwn Elusennau</u> Nodwyd y cyflwynwyd cais i gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau ym mis Ebrill, ac ymatebwyd i rai ymholiadau a ddaeth i law gan y Comisiwn yn sgil hynny. Nodwyd ei bod yn ofynnol i'r Coleg dderbyn datganiadau unigol y Cyfarwyddwyr er mwyn cwblhau'r broses gofrestru. Cytunwyd y byddai'r sawl a oedd yn bresennol yn arwyddo'r ddogfen ar ddiwedd y cyfarfod, a byddai'r Ysgrifennydd yn gwneud trefniadau yn dilyn y cyfarfod i dderbyn datganiadau'r sawl nad oedd yn bresennol.</p> <p>9.2. <u>Cod Ymarfer ar gyfer Cyfarwyddwyr a Swyddogion</u></p> <p>9.2.1. Nodwyd fod swyddogion y Coleg wedi paratoi Cod Ymarfer drafft yn seiliedig ar arfer da, a gofynion Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu'r Coleg. Nodwyd fod y ddogfen bellach yn nwylo cyfreithwyr y Coleg, a bydd yn cael ei chylchredeg unwaith y bydd sylwadau'r cyfreithwyr wedi eu derbyn, a'u hymgorffori i'r ddogfen. Nodwyd y bwriad i gyflwyno'r ddogfen ar ffurf derfynol, i'w fabwysiadu gan y Cyfarwyddwyr yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>9.2.2. Yn y cyfamser, tan i gyfreithwyr y Coleg gadarnhau eu cytundeb i'r Cod Ymarfer yn ei ffurf derfynol, nodwyd ei bod yn ofynnol i'r Cyfarwyddwyr sicrhau eu bod yn dilyn y Rheoliadau Ymddygiad Personol ar gyfer Cyfarwyddwyr y Coleg, a fabwysiadwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ar 30 Mawrth 2011, ac a fydd yn cael eu hymgorffori yn y Cod Ymarfer llawn.</p> <p>9.3. <u>Trefn penodi ac ail-benodi Cyfarwyddwyr</u></p> <p>9.3.1. Gwahoddwyd y Cyfarwyddwyr i ystyried yr argymhellion a gynigwyd yn Atodiad 9/1 y papur, er mwyn cytuno ar drefn benodi, ac amserlen ar gyfer gweithredu'r broses.</p> <p>9.3.2. Cymeradwywyd yr argymhellion yn ddiamod.</p>	<p>Ysgrifennydd y Coleg i wneud trefniadau i dderbyn datganiadau'r sawl nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod, a chwblhau'r broses o gofrestru'r Coleg fel Elusen.</p> <p>Swyddogion y Coleg i weithredu'r drefn yn unol â'r amserlen a nodwyd yn y papur.</p>	<p>Gorffennaf 2011.</p> <p>Amhenodol.</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>9.4. <u>Cadarnhau trefniadau ar gyfer aelodau rhanddeiliadol</u></p> <p>9.4.1. Cafwyd diweddariad gan GS ar yr ymatebion a ddaeth i law yn sgil y gwahoddiad cychwynnol a ddsbarthwyd i'r aelodau rhanddeiliadol. Nodwyd fod mwyafrif y cyrff bellach wedi cadarnhau eu bod yn dymuno bod yn aelodau o'r Coleg. Nodwyd mai'r cam nesaf yw gwahodd y cyrff dan sylw yn ffurfiol i fod yn aelodau rhanddeiliadol o'r Coleg, a'u gwahodd i gyfarfod blynyddol cyntaf y Coleg.</p> <p>9.5. <u>Dyddiad y cyfarfod blynyddol cyntaf</u></p> <p>9.5.1. Nodwyd ei bod yn ofynnol yn gyfansoddiadol i'r Coleg gynnal ei gyfarfod blynyddol cyntaf cyn pen deunaw mis ar ôl ei ddyddiad corffori.</p> <p>9.5.2. Nodwyd yr argymhelliad i bennu blwyddyn gyfrifo gyntaf y Coleg fel blwyddyn fer o 1 Ebrill i 31 Gorffennaf. Yn sgil hynny, gan na fydd modd cyflwyno a derbyn y cyfrifon ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill a Gorffennaf 2011, yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Hydref, bydd yn ofynnol i gynnal cyfarfod arbennig o'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2011 i dderbyn y cyfrifon. Derbyniwyd yr argymhelliad, a chytunwyd i gynnal y cyfarfod dros y rhwydwaith fideo gynadledda. Cytunwyd yn ogystal i ail-drefnu dyddiad cyfarfodydd y Bwrdd yn nhymor yr Hydref 2012 a 2013, er mwyn cynnal y cyfarfodydd ym mis Tachwedd y blynyddoedd hynny.</p> <p>9.5.3. Yn sgil yr uchod, cytunwyd i gynnal y cyfarfod blynyddol cyntaf ar 28 Chwefror 2012.</p>		
<b>10 Materion Cyllid</b> (BC/11/02/10)	10.1. Wrth agor yr eitem hon ar yr agenda, nodwyd y cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Archwilio ar fore'r cyfarfod. Nodwyd yr enwebwyd Geraint James (GJ) yn gadeirydd y Pwyllgor, a		



Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>chadarnhawyd ei fod wedi derbyn y swyddogaeth.</p> <p>10.2. <u>Cadarnhau Rheoliadau Ariannol y Coleg</u></p> <p>10.2.1. Nodwyd fod rhai mân newidiadau wedi eu gwneud i'r Rheoliadau Ariannol a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar 30 Mawrth, yn sgil derbyn cyngor arbenigol ar y ddogfen. Adroddodd GJ ei bod yn fwriad, yn sgil trafodaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio, i lunio atodiad i'r Rheoliadau yn amlinellu'r prosesau ymarferol ar gyfer gweithredu'r rheolau. Nodwyd y bydd GJ a swyddogion hŷn y Coleg yn cyfarfod i drafod y mater ymhellach, a pharatoi drafft o'r atodiad.</p> <p>10.2.2. Nodwyd fod y Pwyllgor Archwilio yn argymhell y dylid cymeradwyo'r Rheoliadau, a chytunodd y Bwrdd i dderbyn y Rheoliadau yn eu ffurf diwygiedig a'u mabwysiadu'n llawn.</p> <p>10.3. <u>Cytundeb Cyllido rhwng y Coleg a HEFCW</u></p> <p>10.3.1. Adroddwyd fod y cytundeb cyllido bellach wedi ei arwyddo gan Brif Weithredwr y Coleg a Phrif Weithredwr HEFCW, a bydd copi o'r cytundeb yn ymddangos ar wefan y Coleg, er gwybodaeth.</p> <p>10.4. <u>Pwyllgor Archwilio: adroddiad ar y cyfarfod cyntaf (llafar)</u></p> <p>10.4.1. Cafwyd adroddiad llafar gan GJ ar gyfarfod cyntaf y Pwyllgor, a chrynowyd ffrwyth y trafodaethau a'r penderfyniadau fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) Derbyniwyd a mabwysiadwyd cylch gorchwyl llawn ar gyfer y Pwyllgor;</li> <li>(ii) Cymeradwywyd yn ffurfiol y Rheoliadau Ariannol, a chytunwyd i'r argymhelliad i lunio atodiad yn amlinellu'r prosesau ymarferol fel y nodir yn 10.2.1. uchod.</li> <li>(iii) Trafodwyd y broses o gyflwyno a derbyn cyfrifon y</li> </ul>	<p>GJ a swyddogion hŷn y Coleg i gyfarfod, a pharatoi atodiad i'r Rheoliadau.</p>	<p>Amhenodol</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>Coleg, a nodwyd y cytunwyd i dderbyn y cyfrifon ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill a Gorffennaf 2011, drwy gynnal cyfarfod arbennig o Fwrdd y Cyfarwyddwyr ym mis Tachwedd.</p> <p>(iv) Trafodwyd yr angen i benodi Archwilwyr Mewnol ac Allanol ar gyfer y Coleg, a nodwyd fod y Pwyllgor yn argymhell rhoi'r flaenoriaeth i benodi Archwilwyr Allanol, a phenodi Archwilwyr Mewnol yn ddiweddarach. Cytunwyd y byddai swyddogion y Coleg yn mynd ati i hysbysebu am Archwilwyr Allanol a Mewnol yn yr wythnos nesaf, ond gyda'r flaenoriaeth i benodi Archwilwyr Allanol.</p> <p>(v) Trafodwyd yr angen i lunio 'Cofrestr Risg' ar gyfer y Coleg, a nodwyd fod y gwaith hynny ar droed gan swyddogion y Coleg.</p> <p>10.4.2. Nodwyd gair o ddiolch i GJ am yr adroddiad, ac am gytuno i gadeirio'r Pwyllgor.</p> <p>10.5. <u>Penodi Archwilwyr Mewnol</u></p> <p>10.5.1. Yn unol â'r hyn a nodir yn 10.3.1.(iv) uchod, nodwyd y byddai'r Coleg yn mynd ati i hysbysebu am Archwilwyr Mewnol ac Allanol yn yr wythnosau nesaf.</p>	<p>Swyddogion y Coleg i hysbysebu am Archwilwyr Mewnol ac Allanol.</p>	<p>Gorffennaf 2011</p>
<p><b>11 Bwrdd Academaidd y Coleg (BC11/02/11)</b></p>	<p>11.1. Yn unol â'r hyn a gytunwyd yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd, nodwyd y cyfeiriwyd Papur Cyf: BC/11/01/10 a drafodwyd yng nghyfarfod cyntaf y Bwrdd, i ystyriaeth y Grŵp Ymgynghorol yn eu cyfarfod ar 13 Mai. Nodwyd fod y fersiwn diwygiedig o'r papur (Atodiad 11/1), yn ffrwyth y drafodaeth yn y cyfarfod hwnnw, ac yn adlewyrchu'n ogystal y sylwadau a dderbyniwyd gan Gyfarwyddwyr unigol a chydweithwyr eraill yn y sefydliadau.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>11.2. Nodwyd fod dau brif newid i'r papur, sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) Argymhelliad i benodi'r aelod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n cynrychioli staff academiaidd, yn Gadeirydd y Bwrdd Academiaidd, ac i dderbyn y teitl 'Deon'. Nodwyd fod yr argymhelliad yn ymateb i'r farn y dylid sicrhau cyswllt clir rhwng Bwrdd y Cyfarwyddwyr a'r Bwrdd Academiaidd.</li> <li>(ii) Argymhellion diwygiedig ynghylch aelodaeth y Bwrdd.</li> </ul> <p>11.3. Ar fater aelodaeth y Bwrdd Academiaidd, adroddodd Katie Dalton (KD) fod trafodaethau wedi eu cynnal rhwng NUS Cymru a llywyddion undebau myfyrwyr Cymraeg. Nododd KD fod y corff myfyrwyr yn cefnogi'r bwriad i ethol tri chynrychiolydd o blith myfyrwyr sy'n aelodau o'r Coleg ar sail ranbarthol.</p> <p>11.4. Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwyr ystyried fersiwn diwygiedig y cynigion fel sail ar gyfer sefydlu 'Bwrdd Academiaidd' y Coleg, a derbyniwyd y cynigion yn ddiamod.</p> <p>11.5. Nodwyd y byddai swyddogion y Coleg yn llunio cylchlythyr ffurfiol i'w ddsbarthu i'r prifysgolion yn cynnwys y cynigion a gytunwyd yn y cyfarfod, gyda chais i'r prifysgolion enwebu cynrychiolwyr i fod yn aelodau o'r Bwrdd. Nodwyd y byddai'r Bwrdd yn derbyn adroddiad ar yr ymatebion yn y cyfarfod nesaf.</p>	<p>Swyddogion y Coleg i lunio a dosbarthu cylchlythyr ffurfiol yn cynnwys y cynigion a gytunwyd yn y cyfarfod.</p>	<p>Gorffennaf 2011.</p>
<p><b>12 Cynllun Gweithredu Interim Ebrill-Gorffennaf 2011</b></p>	<p>12.1. Nodwyd fod y Cynllun Gweithredu Interim ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill a Gorffennaf 2011 wedi ei lunio gan swyddogion y Coleg ar gais HEFCW. Nodwyd y cyflwynwyd y Cynllun i swyddogion HEFCW ar 8 Mehefin, yn dilyn trafodaeth â</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
(BC/11/02/11)	<p>Chadeirydd y Coleg.</p> <p>12.2. Nodwyd fod y Cynllun yn cynnig trosolwg o'r prif weithgareddau strategol a gweithredol y bydd y Coleg yn ymgymryd â hwy yn ystod y cyfnod dan sylw, ac fe'i dosbarthwyd i'r Cyfarwyddwyr, er gwybodaeth.</p> <p>12.3. Nodwyd y byddai swyddogion y Coleg yn paratoi Cynlluniau Gweithredu blynyddol manwl yn dilyn cytuno'r Cynllun Strategol.</p>		
<b>13 Cyllideb 2011/12</b>	<p>13.1. Dosbarthwyd copi o gyllideb ddrafft y Coleg ar gyfer 2011/12 i'r Cyfarwyddwyr, a chafwyd cyflwyniad i gynnwys y gyllideb gan IM.</p> <p>13.2. Cyfeiriwyd at brif elfennau'r gyllideb, a'r gweithgareddau a oedd yn gynwysedig ym mhob categori unigol.</p> <p>13.3. Cytunodd y Cyfarwyddwyr i dderbyn y gyllideb am 2011/12.</p>		
<b>14 Llunio Cytundeb Gweithredu rhwng y Coleg a'r sefydliadau (gan gynnwys sefydlu canghennau)</b> (BC/11/02/14)	<p>14.1. Cafwyd cyflwyniad i'r papur gan IM. Nodwyd fod y berthynas gyfreithiol rhwng y Coleg a'r sefydliadau addysg uwch wedi ei nodi yng nghyfansoddiad y Coleg, ond bydd cyfreithwyr y Coleg yn llunio Cytundeb Gweithredu rhwng y Coleg a'r sefydliadau er mwyn creu fframwaith cadarn ar gyfer gweithredu'r berthynas gyfreithiol.</p> <p>14.2. Nodwyd fod y papur a oedd gerbron yn cynnwys yr hyn a ystyrir fel prif elfennau'r cytundeb.</p> <p>14.3. Cymeradwywyd y bwriad i lunio Cytundeb Gweithredu a'r sefydliadau, a fyddo'n seiliedig ar gyngor cyfreithiol arbenigol, a chroesawyd cynnwys y papur fel sail i'r Cytundeb.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<p><b>15 Cynllun Staffio Academaidd: trefniadau ar gyfer 2012/13 (BC/11/01/15)</b></p>	<p>15.1. Nodwyd fod y papur a oedd gerbron yn cyflwyno drafft o gylchlythyr yn gwahodd ceisiadau am swyddi i'w cyllido o gynllun staffio academaidd y Coleg, i gychwyn yn 2012/13.</p> <p>15.2. Cyflwynwyd yr argymhelliad parthed yr amserlen ar gyfer hysbysebu a dyfarnu'r swyddi, a chymeradwywyd yr argymhelliad i'r Cyfarwyddwyr gymeradwyo'r dyfarniadau yn eu cyfarfod ar 29 Chwefror 2012.</p> <p>15.3. Nodwyd fod y cylchlythyr drafft yn cynnig y dylid gwahodd ceisiadau ar sail yr un egwyddorion ac a weithredwyd yn 2011/12. Nodwyd, serch hynny, yr angen i'r Cyfarwyddwyr ddod i benderfyniad ynghylch yr amodau i'w gosod mewn perthynas â gwahodd swyddi mewn meysydd academaidd penodol, neu adael y gwahoddiad yn agored i'r sefydliadau.</p> <p>15.3.1. Cafwyd trafodaeth ar y mater, a chytunwyd i beidio â chyfyngu ar sail meysydd penodol. Serch hynny, nodwyd yr angen i bwysleisio y byddai'n parhau'n amod fod y ceisiadau'n gydlynus â'r cynlluniau datblygu pynciol, a chynlluniau sefydliadau ar gyfer datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.</p> <p>15.4. Cafwyd trafodaeth ymysg y Cyfarwyddwyr ar gynnwys y cylchlythyr, ac fe'i cymeradwywyd yn amodol ar y newidiadau a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) Ail-eirio paragraffau 21 a 22, er mwyn adlewyrchu'n briodol y cydbwysedd rhwng disgwyliadau ymchwil a gofynion addysgu;</li> <li>(ii) Addasu paragraff 4, yn unol â phenderfyniad y cyfarwyddwyr i ganiatáu cyllido swyddi ar sail grant 50% yn ogystal â modelau 100% a 75%;</li> <li>(iii) Cynnwys pwyslais, yng nghynt yn y ddogfen, ar</li> </ul>	<p>Swyddogion y Coleg i lunio drafft diwygiedig o'r cylchlythyr yn seiliedig ar y newidiadau a nodwyd yn 15.4.(i)-(iii), a'i ddsbarthu.</p>	<p>Medi 2011</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>berthnasedd a phwysigrwydd y cynlluniau datblygu fel sail i'r broses ddyfarnu.</p> <p>15.5. Yng nghyd-destun ehangach y cynllun staffio, cymeradwywyd yr argymhelliad yn y papur, i awdurdodi swyddogion y Coleg, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, i ymdrin â'r sefyllfaoedd y mae angen mynd i'r afael a hwy yn y cyfnod pontio rhwng cynlluniau blaenorol y Ganolfan, a chynlluniau presennol y Coleg. Yn y cyd-destun hwn, cymeradwywyd y nod o sicrhau fod pob swydd academiaidd a gyllidir gan y Coleg yn deillio o'r cynllun staffio academiaidd erbyn blwyddyn academiaidd 2013/14.</p>	<p>Swyddogion y Coleg, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd i weithredu yn unol â'r argymhelliad.</p>	<p>Amhenodol.</p>
<p><b>16 I dderbyn argymhellion ar ddyraniadau o Gronfa Datblygiadau Strategol y Coleg (BC/11/01/16)</b></p>	<p>16.1. Wrth agor yr eitem, nodwyd fod y papur yn cynnwys materion a allai godi gwrthdaro rhwng buddiannau, gan fod yr argymhellion yn ymwneud â dyfarnu cyllid i brifysgolion. Nodwyd nad oedd felly'n briodol i'r Cyfarwyddwyr o'r sector roddi eu barn ar yr argymhellion.</p> <p>16.2. Cyflwynwyd y papur, ac amlinellwyd y broses a gynhaliwyd i wahodd ceisiadau, ac ystyried y ceisiadau a ddaeth i law.</p> <p>16.3. Nodwyd y cytunwyd i rannu'r ceisiadau yn ddau gategori, sef (i) ceisiadau lle argymhellir cefnogi'r prosiect yn amodol ar gytuno cynllun prosiect llawn, a (ii) ceisiadau lle bydd angen rhoi ystyriaeth bellach cyn dod i benderfyniad. Nodwyd fod Atodiad 16/2 y papur a oedd gerbron yn cynnwys rhestr o'r ceisiadau a oedd yn perthyn i gategori (i), a gwahoddwyd y Cyfarwyddwyr i ystyried yr argymhellion.</p> <p>16.4. Nodwyd yr argymhellion, ac fe'i cymeradwywyd yn ddiamod</p> <p>16.5. Nodwyd y byddai swyddogion y Coleg yn paratoi cylchlythyr</p>	<p>Swyddogion y Coleg i</p>	<p>Gorffennaf</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	ffurfiol i hysbysu'r sefydliadau o'r penderfyniadau, a gofynnwyd i'r Cyfarwyddwyr drin yr argymhellion fel rhai cwbl gyfrinachol yn y cyfamser.	lunio a dosbarthu cylchlythyr yn nodi'r penderfyniadau.	2011.
<b>17 I gytuno ar thema ar gyfer trafodaeth strategol yn y cyfarfod nesaf</b>	17.1. Cytunwyd ar y thema ganlynol ar gyfer trafodaeth strategol y Bwrdd yn y cyfarfod nesaf: 'Ystadegau a data ar niferoedd myfyrwyr a darpariaeth cyfrwng Cymraeg'.		
<b>18 Unrhyw Fater Arall</b>	<p>18.1 Cafwyd trafodaeth ar y nifer o gyfarfodydd y Bwrdd a oedd i'w cynnal yn flynyddol. Cytunwyd i barhau i gyfarfod tair gwaith y flwyddyn yn y lle cyntaf, ond cytunwyd y dylid hefyd ystyried cynnal gweithdai, neu sesiynau ychwanegol i'r Cyfarwyddwyr ar waith y Coleg yn ystod y flwyddyn, a threfnu cyfarfodydd ffurfiol neu anffurfiol ychwanegol yn ôl yr angen.</p> <p>18.2. Er mwyn gosod seiliau cadarn i waith y Cyfarwyddwyr a'u hymwneud a gwaith dydd i ddydd y Coleg, cytunwyd y byddai'n briodol i wahodd Cyfarwyddwyr unigol i gyfrannu at agweddau penodol o waith y Coleg ar sail eu profiad a / neu eu harbenigedd. Nodwyd y byddai hefyd yn fuddiol i'r Cyfarwyddwyr ymweld â swyddfa ganolog y Coleg er mwyn cyfarfod swyddogion y Coleg.</p> <p>18.3. Nodwyd y cynhelir Cynhadledd Flynyddol gyntaf y Coleg ar 5 Gorffennaf, ym Mhrifysgol Aberystwyth. Nodwyd y bydd rhaglen y gynhadledd yn cynnwys cyfuniad o gyflwyniadau, a sesiynau / gweithdai cyfochrog gan gyfranwyr o'r sector a chynrychiolaeth o blith partneriaid ehangach y Coleg.</p> <p>18.4. Nodwyd y cynhaliwyd cynhadledd ymchwil lwyddiannus yng Ngregynog ddiwedd mis Mai, a nodwyd yr angen i longyfarch</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>y Coleg ar drefnu digwyddiad o'r fath i ddod a myfyrwyr ymchwil a staff academaidd cyfrwng Cymraeg o amrywiaeth eang o feysydd ynghyd i draddodi papurau academaidd.</p> <p>18.5. Nodwyd, er gwybodaeth, y byddai'r Coleg yn cynnal nifer o weithgareddau yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a'r Fro, a chafwyd amlinelliad o'r rhaglen arfaethedig. Nodwyd y bwriad i wahodd y Gweinidog Addysg i lansiad system aelodaeth y Coleg sydd i'w gynnal yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Nodwyd y byddai croeso cynnes i'r Cyfarwyddwyr i'r holl weithgareddau.</p>		
<b>19 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf</b>	Cynhelir cyfarfod nesaf ar 17 Hydref, yng Nghaerdydd.		

Derbyniwyd a chymeradwywyd y cofnodion yn ffurfiol yng nghyfarfod Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a gynhaliwyd ddydd Llun, 17 Hydref 2011 ym Mhrifysgol Caerdydd.

Llofnod: .....

(Yr Athro R. Merfyn Jones, Cadeirydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol)

Dyddiad: .....

17.10.2011